**Cartrefi Conwy Cyfyngedig**

Swyddfa Gofrestredig: Morfa Gele, Parc Busnes Gogledd Cymru,

Cae Eithin, Abergele, Conwy LL22 8LJ

**Telerau ac Amodau**

**Cynllun Gwobrau Cartrefi: Mehefin 2016**

**PWRPAS**

Pwrpas Cynllun Gwobrau Cartrefi gan Cartrefi Conwy ("y Cynllun") yw gwobrwyo tenantiaid Cartrefi Conwy ("y Gymdeithas") sy'n ymgysylltu'n ymarferol â'r Gymdeithas, bodloni eu hymrwymiadau tenantiaeth a'n cynorthwyo i gynnal ein stoc tai i safonau y cytunwyd arnynt .

**Amodau a Thelerau Cyffredinol:**

- Mae'r Cynllun yn agored i holl denantiaid Cartrefi Conwy a dim ond y wobr "Rwy'n Cymryd Rhan" sy'n estyn allan i breswylwyr a enwir. Mae tenantiaid Cartrefi Conwy sydd wedi eu cynnwys yn y raffl yn denantiaid sicr i Cartrefi Conwy.
- Gan mai bwriad y Cynllun yw annog a gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol, mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i wahardd neu dynnu tenant allan os oes pryderon, ymchwiliad, neu gamau cyfreithiol ar y gweill neu'n cael eu hystyried a bod y tenant wedi cael gwybod amdanynt. Bydd y rhesymau dros dynnu allan neu wahardd yn cael eu cofnodi.
- Bydd y Cynllun yn cynnwys ystod o rafflau am wobrau ariannol.
- Gall tenantiaid gael eu cynnwys mewn mwy nag un Raffl ar yr amod eu bod yn gymwys yn unol â'r telerau ac amodau penodol ar gyfer pob raffl fel y nodir isod.
- Ni fydd tenantiaid yn cael eu gwahardd o rafflau yn y dyfodol o gwbl os ydynt wedi ennill o'r blaen.
- Bydd y telerau ac amodau ar gyfer gweithrediad y Cynllun hwn yn cael eu hadolygu ym mis Mehefin 2017, ac yn flynyddol wedi hynny. Mae'r

Gymdeithas yn cadw'r hawl i atal neu dynnu allan o’r Cynllun neu unrhyw un o'r rafflau ar unrhyw adeg.

- Bydd y dull o dalu gwobrau raffl yn amodol ar amgylchiadau unigol.
- Os oes unrhyw fath o ddyled i'r Gymdeithas y mae'r tenant yn atebol amdani fel ôl-ddyledion, ad-daliadau neu ôl-ddyledion cyn-denantiaid, bydd arian y wobr yn cael ei osod yn erbyn cyfrif y tenant i wneud iawn am yr ôl-ddyledion.
- Os yw gwerth y wobr raffl yn fwy na'r ddyled i'r Gymdeithas, bydd unrhyw falans sy'n weddill yn cael ei dalu i'r tenant.
- Gall tenantiaid gyflwyno unrhyw ymholiadau ynghylch y cynllun gwobrwyo a gofyn am wybodaeth am y rafflau y maent wedi cael eu cynnwys ynddynt, drwy gysylltu â'r tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0300 124 0040. Bydd galwadau, yna’n cael eu hailgyfeirio i'r cydweithiwr perthnasol yn ôl yr angen.
- Bydd y Gymdeithas yn penderfynu ar bob mater sy'n ymwneud â chyhoeddi'r Cynllun Gwobrau Cartrefi. Ni fydd hunaniaeth enillwyr yn cael ei datgelu heb eu caniatâd.
- Bydd enillwyr yn cael eu hysbysu gan ddefnyddio’r wybodaeth gyswllt o’u dewis, gan gynnwys dros y ffôn, drwy e-bost ac yn ysgrifenedig. Bydd y Gymdeithas yn ceisio cysylltu 3 gwaith, a fydd yn cael eu cofnodi. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau i hawlio gwobrau raffl ar ôl 6 mis o ddyddiad y raffl.

**Rafflau unigol: Nod ac amlder**

| **Enw'r raffl** | **Nod y raffl** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Rwy'n Talu | Annog tenantiaid i sicrhau bod taliadau rhent yn cael eu gwneud ymlaen llaw neu’n gyfredol. | Raffl fisol<br>Bydd y raffl yn cael ei thynnu ar drydedd wythnos bob mis calendr yn seiliedig ar fod yn gymwys yn y mis blaenorol.<br>Bydd y raffl gyntaf yn digwydd ym mis Gorffennaf 2016. |
| Rwy'n Cymryd Rhan | Er mwyn annog tenantiaid i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau a digwyddiadau. | Raffl bob chwarter blwyddyn<br>Bydd y raffl yn cael ei thynnu ar drydedd wythnos mis Hydref, Ionawr, Ebrill a Gorffennaf, yn seiliedig ar weithgaredd y 3 mis calendr llawn blaenorol.<br>Bydd y raffl gyntaf ar gyfer 'Rwy'n Cymryd Rhan' yn cael |

| | | |
|---|---|---|
| | | ei chynnal ym mis Hydref 2016. |
| Rwy'n Falch | I annog tenantiaid i gynnal eu cartref i safon addas yn unol ag amodau eu tenantiaeth. | Raffl fisol<br><br>Bydd y raffl yn cael ei thynnu ar drydedd wythnos bob mis calendr yn seiliedig ar fod yn gymwys yn y mis blaenorol.<br><br>Bydd y raffl gyntaf yn digwydd ym mis Gorffennaf 2016. |

**Rwy'n Talu- Raffl fisol**

Pwrpas y raffl 'Rwy'n Talu' yw gwobrwyo tenantiaid sy'n bodloni eu hymrwymiadau gyda'u taliadau rhent. Rhoddir manylion meini prawf y raffl isod:

- Mae pob tenant yn cael eu cynnwys beth bynnag yw eu dull o dalu rhent, ar yr amod;
    - Os bydd y tenant yn cymryd rhan mewn Cyfnewid Rhent, mae ganddynt sgôr o 0. Mae hyn yn golygu bod y tenant yn gynnar, neu'n gyfredol gyda'u taliadau rhent

      NEU
- Ni chofnodwyd lefelau uchel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn y tair blynedd diwethaf. Mae lefel uchel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cynnwys unrhyw ymyrraeth ffurfiol neu gamau cyfreithiol a gymerir, er enghraifft cyflwyno Contract Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu Waharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.
- Dim ond y tenant arweiniol y gellir eu cynnwys yn y raffl. Ni fydd unrhyw breswylwyr yn cael eu hystyried ar gyfer y raffl. Nodir mai'r tenant arweiniol yw'r 'Prif Gyswllt' ar System Tai Agored Cartrefi Conwy. Bydd y wobr yn cael ei dyfarnu i'r 'Prif Gyswllt', fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd lle nad y tenant yw'r prif gyswllt, bydd amgylchiadau unigol yn cael eu hadolygu a thaliad yn cael ei wneud yn unol â hynny.

**Rwy'n Cymryd Rhan – Raffl Chwarterol**

Pwrpas y raffl 'Rwy'n Cymryd Rhan' yw annog tenantiaid i fynd ati i ymgysylltu a chymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau a gynigir gan Cartrefi Conwy. Rhoddir manylion meini prawf y raffl isod:

- Bydd y tenantiaid a'r preswylwyr hynny sydd wedi llenwi Holiadur Ymgysylltu 'Lleisiau Cartrefi' Cartrefi Conwy yn nodi eu dewisiadau cymryd rhan yn gymwys ar gyfer tynnu hwn, ac eithrio preswylwyr sydd o dan 18 oed.

- Bydd preswylwyr lluosog fesul aelwyd yn cael eu cynnwys yn y raffl yr amod eu bod wedi llenwi’r Holiadur Ymgysylltu yn unigol
- Bydd y gronfa ddata o denantiaid sydd wedi llenwi Holiadur yn cael ei adolygu bob 12 mis. Os nodir yn yr adolygiad na fu unrhyw gyfranogiad yn ystod y flwyddyn, bydd hyn yn arwain at dynnu allan o’r gystadleuaeth.
- Bydd tenantiaid a phreswylwyr a dynnwyd allan yn gymwys i gael eu cynnwys mewn rafflau yn y dyfodol os ydynt yn llenwi Holiadur Ymgysylltu newydd 'Lleisiau Cartrefi'.
- Bydd tenantiaid a phreswylwyr yn cael dewis i lenwi a chyflwyno holiadur ar-lein drwy’r wefan, drwy'r post, yn adeiladau Cartrefi Conwy, a dros y ffôn.
- Bydd gofyn i denantiaid a phreswylwyr ddiweddaru eu dewisiadau ymgysylltu yn flynyddol.

**Rwy'n Falch - Raffl Fisol**

Pwrpas y raffl 'Rwy'n Falch' yw annog tenantiaid i gynnal eu cartref i safon addas fel y nodwyd yn nhelerau ac amodau’r denantiaeth. Rhoddir manylion meini prawf y raffl isod:

- Bydd pob tenant yn cael eu cynnwys yn y raffl ar yr amod eu bod wedi;
    - Cwblhau Ymweliad Partner Cartref yn y 12 mis diwethaf
    - Cael eu nodi gan y Partner Cartref fel rhai sy’n cadw at amodau tenantiaeth yn ymwneud â chyflwr eiddo a chwrdd â'r holl feini prawf isod;
        1. Addurniad Mewnol: mae’r cartref mewn cyflwr glân a thaclus
        2. Dim difrod mewnol (ac eithrio traul arferol)
        3. Gardd mewn cyflwr trwsiadus, twt a thaclus
        4. Yn gwaredu unrhyw sbwriel yn briodol (dim eitemau mawr yn y cartref / gardd e.e. oergell, matres.)
        5. Dim gwastraff anifeiliaid gormodol yn y gerddi
        6. Dim sbwriel mewn mannau cymunedol (os yw’n berthnasol)
        7. Coridorau, grisiau a landins yn glir mewn mannau cymunedol (os yw’n berthnasol)
- Bydd y Partner Cartref yn hysbysu'r tenant yn ystod yr ymweliad os byddant yn cael eu cynnwys yn y raffl. Os na fydd y tenant yn cael ei gynnwys yn y raffl, bydd y tenant yn cael gwybod am yr ardal(oedd) i’w gwella. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi.
- Fel isafswm, bydd pob Tenant yn cael ymweliad Partner Cartref unwaith y flwyddyn.

- Dim ond y tenant arweiniol fydd yn cael ei gynnwys yn y raffl. Ni fydd unrhyw breswylwyr yn cael eu hystyried ar gyfer y raffl. Nodir mai’r tenant arweiniol yw’r ‘Prif Gyswllt’ ar System Tai Agored Cartrefi Conwy. Bydd y wobr yn cael ei dyfarnu i'r ‘Prif Gyswllt’ yn unig.